Undeb Môn 2011

Teithiodd pump o aelodau Eglwys Minny Street i Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym Miwmares. Cafwyd tridiau yn llawn ysbrydiaeth a gobaith; gwelwyd arwyddion sicr bod 'symud' yn ein plith gyda nifer cynyddol o eglwysi a'u haelodau yn sylweddoli bod rhaid cymryd y Ffydd o ddifrif a rhoi blaenoriaeth i'r Arglwydd Iesu! Nid 'clwtyn' arall yng nghwilt cymhleth a phrysur bywyd yw bod yn Gristion; mynna'r Ffydd ein teyrngarwch, brwdfrydedd, egni ac ymroddiad.

Yn ystod y Cyfarfodydd clywyd manylion gwaith y flwyddyn gan **Adrannau'r Undeb** - Addysg a Chyfathrebu; Cyllid; Dinasyddiaeth Gristnogol; yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth; y Genhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang a Teulu. Soniwyd am gyfraniad pwysig yr Is-bwyllgor Buddsoddion, pwyllgor y mae dau o'n haelodau, Nevil Davies a Lewis Evans, yn chwarae rhan bwysig ynddo. Cyfeiriwyd hefyd at Katerina Jonathan, un o'n myfyrwyr, wrth iddi baratoi i deithio i Amsterdam i weithio ar brosiect o dan nawdd y

Genhadaeth Fyd-eang (*CWM*). Llwyddodd yr **Ysgrifennydd Cyffredinol** i wefreiddio a dwysbigo'r Gynhadledd. Fe'n hatgoffwyd o'r perygl o fod yn ynysig a 'chapelog' ein hagwedd a'n tystiolaeth; nid dyna a olygir wrth fod yn Eglwys Annibynnol, rhybuddiodd! Fe'n heriwyd yn ddi-flewyn-ar-dafod i fynd ati o ddifrif i loywi ein tystiolaeth Gristnogol a'i gwneud yn briodol ar gyfer 2011. Ynghlwm wrth yr her hon roedd hefyd apêl ar i'r eglwysi hynny sy'n penderfynu nad ydynt am newid, ac mai sefyll yn yr unfan yw eu dymuniad, i beidio â thanseilio brwdfrydedd y rhai sydd am addasu ac esblygu!

Pasiwyd pedwar **penderfyniad** yn ystod y Cyfarfodydd. Cefnogwyd yn unfrydol **benderfyniad** yn datgan gwrthwynebiad i'r rhyfel yn Afghanistan ac i ymyriad cyson lluoedd arfog gwledydd Prydain mewn gwledydd eraill fel Libya. Ymhellach, galwyd ar i'r arian sy'n cael ei wario ar ryfela gael ei ddargyfeirio i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i brynu cyffuriau a meddyginiaethau i'r cleifion hynny sydd ar hyn o bryd yn methu cael triniaeth oherwydd cost uchel y driniaeth honno. Ar 16 Mehefin 2011 gwnaeth Gweinidog Busnes Llywodraeth Cymru ddatganiad yn cefnogi ymarfer awyrennau di-beilot (*drones*) dros dir Cymru. Mewn **penderfyniad brys** cytunwyd i ddatgan bod y datblygiad diweddaraf hwn mewn technoleg rhyfel yn farbaraidd a gwrth-Gristnogol. Cafwyd hefyd drafodaeth drwyadl ar **benderfyniad** a gyflwynwyd gan Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Trwy fwyafrif pleidleisiwyd bod

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn annog eglwysi a Chyfundebau i gefnogi apêl *Yr Ystafell Fyw* gan Gyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill yn ariannol ac yn addysgiadol. Aelodau Eglwysi Annibynnol Môn a gyflwynodd yr ail **benderfyniad brys.** Pasiwyd yn unfrydol fod y Cyfarfodydd Blynyddol yn galw ar Lywodraeth Gwledydd Prydain i gadw Gorsafoedd Gwylwyr y Glannau yng Nghymru ar agor ddydd a nos. Ofnir bod cynlluniau ar droed i gau gorsafoedd Caergybi ac Aberdaugleddau, gyda gorsaf Abertawe ar agor yn ystod oriau'r dydd yn unig.

Cynhelir nifer o Sesiynau Datblygu Sgiliau a chyfarfodydd Cymdeithasau Annibynwyr Cymru yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb. Eleni cynhaliwyd dwy **Sesiwn Datblygu Sgiliau**, y gyntaf gan y Parchedig Aled Davies ar drefnu gwasanaeth. Cyflwyniad addysgiadol iawn oedd hwn i'r trawstoriad eang o adnoddau - yn llyfrau, cryno-ddisgiau ac adnoddau gweledol - sydd ar gael i'n cynorthwyo i drefnu a chyflwyno gwasanaethau. Tynnwyd ein sylw at ddeunyddiau megis *Wholly Worship* (URC, 1999) sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu addoliad ymysg aelodau'r eglwys leol. Argymhelliad Aled oedd dewis thema benodol ar gyfer y gwasanaeth: Sul y Beibl, Sul Undod Cristnogol neu Sul *HIV/AIDS*. Y Parchedig Casi Jones oedd arweinydd yr ail sesiwn ar sut i wneud yr eglwys yn lle croesawus! Llun

adnabyddus i aelodau Eglwys Minny Street, *The Return of the Prodigal Son* gan Rembrandt (1606 - 1669), a chyflwyniad *beibl.net* o stori gyfarwydd *Y Mab Wnaeth Wrthryfela* (Luc 15:11-31) oedd yr ysgogiad i drafod pa fath o groeso a estynnir gennym, a pha fath groeso y dylem ei gynnig, yn ein heglwysi. Cawsom ein hannog i ystyried tair agwedd i adlewyrchu cariad a chroeso'r Tad yn ein heglwysi: **Pobl Groesawgar**, **Adeilad Croesawgar** a **Chyfarfodydd Croesawgar.**

Yng nghyfarfod **Cymdeithas Heddwch yr Annibynwyr**, y Parchedig Pryderi Llwyd Jones oedd yn traddodi darlith ar bwnc dadleuol *Rhyfel Cyfiawn*. Daeth syniadaeth rhyfel cyfiawn yn rhan o'r meddylfryd Cristnogol gyda thröedigaeth yr Ymerawdwr Cystennin (272 - 377) i Gristnogaeth. Mewn ymdriniaeth ysgolheigaidd trafododd y darlithydd y saith cyfiawnhad dros ryfel (*jus ad bellum*) yng nghyd-destun Afghanistan, Irac a Libya gan ddangos mor wantan ydynt. Cafwyd hefyd drafodaeth fuddiol iawn yn y **Cyfarfod Diwinyddol**. *Cyffes Accra* oedd gwrthrych y sylw, sef datganiad ar agwedd Cristnogion at dlodi a phroblemau ecolegol. Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi llofnodi'r Gyffes a'i hamcan yw dadansoddi'r systemau economaidd byd-eang sy'n peri gormes a dioddefaint i bobl dlotaf y byd, ac yn niweidio'r blaned. Yng **Nghyfarfod Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr** traddododd y Parchedig Ddr Dafydd Wyn William ddarlith ar yr Ymneilltuwr William Prichard (1703-73) o Gnwchdernog, Môn. Mrs Gwendoline Evans, Cadeirydd yr Adran Teulu oedd yn traddodi'r anerchiad yng **Nghyfarfod Mudiad y Chwiorydd**. Fe'n hatgoffwyd mai Mrs R J Jones (Eglwys Minny Street) ddechreuodd Mudiad y Chwiorydd. 'Roedd pwyslais yr anerchiad ar *Y Teulu*, ac yn arbennig gyfraniad a dylanwad chwiorydd i'r Uned Deuluol a'r Ffydd Gristnogol ers dyddiau'r Iesu. Cyfeiriodd Gwendoline at y gwragedd a fu'n rhan o fywyd a gweinidogaeth yr Iesu. Tynnodd ein sylw at Lythyr Paul at y Rhufeiniaid lle mae'n sôn am y gwahanol aelodau mewn un corff ac fel rydym ninnau yn un corff yng Nghrist er bod gennym wahanol ddoniau. Mae gan aelodau Teulu'r Eglwys wahanol ddoniau, meddai Gwendoline, ond rhaid bod y teulu cyfan yn cydweithio er mwyn sicrhau llwyddiant yr Efengyl.



Yn ystod y tridiau cyflwynodd y Parchedig Meirion Morris, Ysgrifennydd y Panel Diogelwch Cydenwadol, ddiweddariad ar y trafodaethau cyfredol oddi mewn i Lywodraeth y Glymblaid wrth iddynt werthuso ac argymell newidiadau yn y deddfau sy'n ymwneud â'r mater hwn. Profiad cynhyrfus oedd clywed am drefniadau Cyfundeb Penfro ar gyfer **Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Abergwaun, 12 i 14 Gorffennaf 2012**. Derbyniwyd yn unfrydol holl argymhellion adroddiad Comisiwn Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi i ddatblygu agweddau o'n

hyfforddiant. Uchafbwynt dydd Sadwrn yr Undeb yw **Cystadlaethau Cwpan Denman**. Eleni, creu gwaith gweledol oedd y dasg ar thema *Yr Eglwys ar Waith*. Gyda'r ffotograffydd Aled Rhys Hughes a'r newyddiadurwr Rhun ap Iorwerth yn beirniadu, dyfarnwyd y wobr gynradd am 20 o luniau mewn albwm i Ysgol Sul Eglwys y Priordy, Caerfyrddin. Eglwys Seion, Aberystwyth enillodd y wobr uwchradd am 20 o luniau ac Ysgol Sul Hermon, Cynwyl Elfed enillodd y wobr am ffilm fer yn amlinellu gweithgarwch ei heglwys. Tro Eglwysi Cyfundeb Môn oedd paratoi a chyflwyno'r **Pasiant** ar nos Wener. Y Parchedig Hugh John Hughes oedd wedi paratoi sgript *Tiroedd Gobaith*, sef cyflwyniad o Ddameg yr Heuwr. Yn berfformiad caboledig, go brin y bydd i'r cynadleddwyr anghofio'r côr plant yn canu '*Fel hyn ma isio byw'*, sgets y codwr pwysau, na chwaith y ddeialog honno rhwng rhieni nad oedd yn mynychu nac eglwys, capel nac oedfa - ond yn mynnu bod eu plentyn yn cael ei fedyddio yn unol â'u dymuniad a'u hamserlen hwy … a heb ormod o bwyslais ar wir ystyr y sacrament - a Gweinidog yr eglwys leol! Gwelwyd sawl gwên ar wynebau Gweinidogion yr Undeb ym Miwmares - profiad cyfarwydd iddynt, mae'n amlwg!

Mae **addoliad a defosiwn** yn chwarae rhan ganolog yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb. Un o weinidogion 'newydd' yr Annibynwyr oedd yn ein harwain, y Parchedig Aled Davies, Chwilog; wyneb cyfarwydd i ni yn Eglwys Minny Street trwy ei ymwneud â Chyngor yr Ysgolion Sul a Chyhoeddiadau'r Gair (a brawd Lona!!). Cafwyd cyfle mewn dau Ddefosiwn Boreol i ganolbwyntio ar Weddi'r Arglwydd trwy ddefnyddio deunydd o adnoddau Cyhoeddiadau'r Gair. Y Parchedig James Clarke (Llanfairpwll) oedd yn arwain ein defosiwn fore Sadwrn ac mewn llun, gair a fideo fe'n bendithiwyd, heriwyd a'n dwysbigwyd! Go brin fydd i neb a oedd yn bresennol anghofio'r teimlad gwefreiddiol a symudodd drwy'r gynulleidfa wrth gloi'r addoliad yn gwrando ar gân Steve Eaves, '*Ymlaen mae Canaan'* - un o ddigwyddiadau mwyaf ysbrydol y gynhadledd.

Cafwyd anerchiad heriol a phositif gan y Parchedig Peter Thomas, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, yn **Oedfa'r Llywydd**. Fe'n cyfeiriwyd at eiriau cyfarwydd Mathew '*Chwi yw halen y ddaear'* (Mathew 5: 13) a '*Chwi yw goleuni'r byd'* (Mathew 5: 14). Rhaid, meddai Peter Thomas, yw i ni roi blas ar ein byw fel Cristnogion a thystiolaethu yn y byd, nid encilio oddi wrtho. Rhaid llewyrchu'r goleuni yn y byd, nid yn unig ei weld. Rhaid, fe'n heriodd, ddileu ein negyddu cyson, ymarfer ysbryd Crist, anwesu pob newid a dal ati i fentro'n hyderus i'r dyfodol. Mae gennym Arglwydd byw atgyfodedig! Cofiwn, meddai, eiriau Paul at yr Eglwys yng Nghorinth: *'... fy nghyfeillion annwyl, byddwch yn gadarn a diysgog, ... yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer'* (1 Corinthiaid 15:58). I orffen, dyfynnodd eiriau'r Parchedig D T Evans, o'i Anerchiad Llywyddol i'r Undeb yn 1983: '*Onid yw'n bryd i ni ddod allan o'n hunan-drueni sy'n peri i ni edrych yn ôl fel pe bai Canaan eisoes wedi mynd heibio yn hanes yr Eglwys, a mentro dathlu yn llawen ac yn hyderus fod holl adnoddau Duw o'n plaid ni heddiw? ...ac y mae hyn i gyd oherwydd bod yr Atgyfodiad, nid yn unig yn ffaith unwaith mewn hanes, ond hefyd yn rym cyfoes i'n nerthu a'n hadnewyddu yma ac yn awr. Am hynny llawenhawn, dathlwn a gorfoleddwn ..'*. Daeth **Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Môn 2011** i ben mewn **Oedfa o Fawl** o dan arweiniad y Parchedig Hugh John Hughes. Yn ystod yr oedfa cafwyd cyfle i ddiolch a chyflwyno gwerthfawrogiad i Mrs Delyth Evans, Cynorthwyydd Gweinyddol yr Undeb, ar ei hymddeoliad. Mewn addoliad aml-gyfrwng, wedi ei greu o amgylch thema '*Dos allan i'r dŵr dwfn'*, fe'n heriwyd, wrth i ni adael Biwmares a mynd yn ôl i'n heglwysi lleol, i fentro o ddifrif ar waith ein Harglwydd a gofynnwyd sut y byddem ni yn ateb y cwestiwn a ofynnodd Iesu i'w ddisgybl: '***a wyt ti'n fy ngharu i?'*** (Ioan 21:16) **Holed pawb ei hun!**